Dyletswyddi – mis Mai
Cyhoeddi : Mair
Drws : Michael

capelsalem.org

SALEM

CYHOEDDIADAU MIS MAI

Casgliad hen stamplau yn y cyntedd

Oedfaon y Sul

Am 10:30 y bore a 6:00 yr hwyr.
Ysgol Sul yn y bore wedi i'r plant a'r ifanc gyfrannu i rannau arweiniol yr Oedfa foreol.

Mai 2il	**Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail** **Gwasanaeth cymun gyda'r hwyr**	Casglyddion: Catrin, Osian a'r teulu	Te a choffi: Siwan a'i chriw
9fed	**Parch. Ifan Roberts**	Blaenoriaid	-
16eg	10:30am **Miri Mawl – Llwyfan Tesco yng Nghanolfan y Mileniwm – cyfle i ganu mawl i Dduw yng nghwmni Andy Hughes a'r band – gobeithio ciniawa gyda'n gilydd ar ôl y Miri !!** Hwyr - **Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail**		-
23ain	**Parch. Gareth Reynolds** **Daw Evan lawr o Fethel i gyflwyno ar ddiwedd yr oedfa anrheg ar ein rhan i Mrs Sinah Watkin, sef Mam Cath, Nain Gethin, am ei phenblwydd yn 100 oed, Paned wedyn**	Gethin, Rhian a Ffion	Matthew
30ain	Bore - **Parch. Vivian Jones** **Dim ysgol Sul** Hwyr - **Yr Athro John Gwynfor Jones**	Blaenoriaid	-
Mehefin 6ed	**Parch. T. Evan Morgan – ein Bugail** **Gwasanaeth cymun yn y bore** ***Ysgol Sul y Bobl Ifainc – Mari Fflur yn cyflwyno a thrafod arolwg Eglwys Bresbyteraidd Cymru***	Glenys a Fflur	?

Cyfarfodydd yn ystod yr Wythnos

Dydd Mawrth	4ydd	6:30-7:30pm	Clwb Criced Salem – "nets" yng Nghlwb Criced Sir Forgannwg
Nos Fawrth	4ydd	8:00pm	Clwb Llyfrau Salem yn y Mans: llyfr "An Education" gan Lynn Barber – o ddewisiad Lis Miles.
Bore Mercher	5ed	9:45am	Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin
Nos Wener	7fed	7:30pm	Clwb Pobl Ifainc yn cyfarfod yn y festri
Bore Sadwrn	8fed	10:00am	Ffair a bore coffi Cymorth Cristnogol yn Tabernacl. Tocynnau £2 oddi wrth Cath Thomas. Derbynir rhoddion tuag at Hamper Harddwch.
Dydd Iau	13eg	7:30pm	Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd – Oedfa Cymorth Cristnogol yng Nghapel y Crwys: siaradwr - Jeff Williams
Dydd Gwener	14eg	11:00am tan 12:00	Clwb Coffi yn Ystafell Edwin. Croeso i bawb sy'n rhydd yn ystod y bore i ymuno â ni am goffi a sgwrs a chwmniaeth
Dydd Sadwrn	15fed	8:30am tu fâs i Salem	**Gwlbdaith I Cheltenham, elw tuag at gronfa'r estynlad –** (ymadael am 4:30pm) – pris £11 - rhestr yn y cyntedd, enwau ac arian mor fuan â phosib – croeso cynnes i bawb a'i ffrindiau
Nos Lun	17eg	6:00pm	Clwb Criced Salem gem agoriadol y tymor – "Angylion" yn erbyn "Y Saint" ar Gaeau Llandaf – dewch yn llu i gefnogi - cefnogwyr brwd, sylwch ar y newid lleoliad am eleni. Diolch. !!
Nos Fawrth	18fed	7:30pm	Cwrdd Blaenoriaid - cyfarfod gohiriwyd o'r mis diwethaf
Bore Mercher	19eg	9:45am	Clwb Brecwast i rieni a phlant/babanod dan oed feithrin yn Ystafell Edwin
Bore Gwener	21ain	10:30 am	Clwb Cerdded Salem – ymgynnull yn y Mochyn Du am 10:15am am daith gerdded (haws!) gan gyrraedd yn ôl erbyn amser cinio. Wnaiff Evan rhoi lifft o barthau'r gorllewin i unrhyw un sydd eisiau. Rhestr yn y cyntedd.
Nos Lun	24ain	6:00pm	Clwb Criced Salem v Staff ysgol Gwynllyw ar Gaeau Llandaf

Rhaghysbysebion

Mis Mehefin			
Dydd Sul	6ed	2:30pm	Bwydo'r di-gartref – festri Tabernacl yr Aes – Tîm Enyd
Nos Lun	7fed	6:00pm	Clwb Criced Salem v Adran Chwaraeon BBC ar Gaeau Llandaf
Nos Fawrth	8fed	8:00pm	Clwb Llyfrau Salem yn y Mans: llyfr o ddewisiad Angharad Rogers.
Dydd Mercher	9fed	6:30pm	Taith fer o gwmpas Stadiwm SWALEC (Gerddi Soffia) gan gynnwys cyfle i weld y gofeb er cof am Tomos. Cyfle wedyn i fynd am fwyd yn y Mochyn Du (opsiynol). Rhestr yn y cyntedd neu gysylltwch â Hywel Owen (07910 239624) cyn 6 Mehefin. Croeso cynnes i bawb.
Nos Lun	14eg	6:00pm	Clwb Criced Salem v Athrawon y Fro ar Gaeau Llandaf